2025-26

# Adroddiad Blynyddol Llywodraethwyr i Rieni

## Ysgol Mynach






## Llythyr o'r Cadeirydd

Annwyl Rieni,

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i Rieni ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26.

Mae wedi bod, fel bob amser, yn flwyddyn brysur iawn i'r disgyblion, y staff a'r rhieni ac, rwy'n gobeithio y byddwch yn cytuno, yn flwyddyn lwyddiannus iawn.

Mae Ysgol Mynach yn parhau i ganolbwyntio ar sicrhau bod pob disgybl yn cyflawni hyd eithaf ei botensial ac yn mwynhau addysg o'r safon uchaf. Bydd yr ysgol yn parhau i ganolbwyntio ar yr un tair blaenoriaeth yn ystod y flwyddyn sydd i ddod: datblygu sgiliau rhifedd ymhellach ar draws y cwricwlwm ehangach; datblygu diwylliant darllen sy'n hyderus, brwdfrydig, annibynnol a phleserus; ac ymestyn rhaglen lesiant ysgol gyfan ymhellach.

Yn ystod y flwyddyn, cefais y pleser o arsylwi ar wersi yn yr ysgol. Roedd yn hyfryd gweld ymddygiad arbennig o dda y plant, a pha mor gwrtais oeddent. Roeddent yn dangos awydd gwirioneddol i ddysgu, ynghyd â brwdfrydedd a mwynhad yn eu gwaith ysgol. Roedd eu hagweddau cadarnhaol a'u parodrwydd i gymryd rhan yn amlwg drwy gydol y gwersi.

Cefais hefyd y cyfle i brofi'n uniongyrchol yr awyrgylch cynnes a chroesawgar sydd yn Ysgol Mynach. Roedd yn bleser mawr gweld y plant yn ymgysylltu mor gadarnhaol â'u dysgu ac â'i gilydd. Mae'r profiadau hyn wedi atgyfnerthu fy hyder yn ymroddiad ein staff a'r amgylchedd dysgu cadarnhaol y maent yn ei greu ar gyfer ein disgyblion.

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at flwyddyn lwyddiannus arall, gan gynnwys ein disgyblion, staff, rhieni, llywodraethwyr ac aelodau o'r gymuned ehangach, sydd wedi cefnogi'r ysgol ac wedi cyfrannu mewn cymaint o wahanol ffyrdd.

Ar ran y Corff Llywodraethol, hoffwn ddiolch i bawb am eu cefnogaeth a'u hymrwymiad parhaus i Ysgol Mynach. Edrychwn ymlaen at flwyddyn lwyddiannus arall ac at barhau i gydweithio er mwyn sicrhau bod ein disgyblion yn hapus, yn hyderus ac yn gallu cyrraedd eu llawn botensial.

**Diolch yn fawr,**

**Gareth Jones**
**Cadeirydd y Llywodraethwyr**

## Y Corff Llywodraethol




Mae aelodau'r Bwrdd Llywodraethol yn adlewyrchu trawstoriad y gymuned leol. Mr Gareth Jones yw Cadeirydd y Corff Llywodraethol gyda Mr Carl Carter yn is-gadeirydd. Diolch iddynt am eu cefnogaeth barhaol i holl weithgarwch yr ysgol.

Mae'r Cadeirydd yn cael ei ethol ar ddechrau pob blwyddyn academaidd newydd. Mae'r llywodraethwyr yn gyfrifol am reoli polisïau'r Awdurdod Addysg a Deddfwriaeth ysgolion y wlad. Mae'r Bwrdd Llywodraethol yn cyfarfod unwaith pob tymor. Mae'r Pennaeth yn paratoi adroddiadau manwl i'w drafod gan y Bwrdd Llywodraethol. Mae'r adroddiadau yma yn cynnwys gwybodaeth am gynnydd disgyblion, datblygiadau cwricwlaidd, materion staffio, iechyd a diogelwch a chyllid. Dengys hyn eu bod yn dwyn y Pennaeth i gyfrif am bopeth yn yr ysgol.

## Aelodau'r Corff:

| ENW | STATWS |
|---|---|
| Gareth Jones (Cadeirydd) | Aelod o'r AALl |
| Carl Carter (Is-gadeirydd) | Rhiant Lywodraethwr |
| Joyce George | Pennaeth Llywodraethwr |
| Dafydd Morris Jones | Rhiant Lywodraethwr |
| Teleri Lewis | Rhiant Llywodraethwr |
| Rhydian Davies | Rhiant Lywodraethwr |
| Clare Raw | Aelod o'r Gymuned |
| Bryn Shepherd | Aelod o'r Gymuned |
| Bethan James | Athro Lywodraethwr |

Gellir cysylltu â Chadeirydd y Llywodraethwyr a/neu'r Clerc drwy'r ysgol.
Ffon: 01970 890234 e-bost: prif@mynach.ceredigion.sch.uk

Ni wnaethpwyd cais am gostau gan unrhyw lywodraethwr yn ystod y flwyddyn.

## Staff

| | |
|---|---|
| Pennaeth â Gofal | Mrs Joyce George |
| Pennaeth Cynorthwyol ac Athrawes CS | Mrs Bethan James |
| Athrawes CA2 | Mrs Rhiannon Carruthers |
| Cynorthwywyr | Miss Fflur Griffiths Mrs Bethan Williams<br>Miss Rhianwen Pugh Miss Ffion Dark |
| Glanhawr | Miss Rhianwen Pugh |
| Goruchwylwraig Cinio | Ms Nicola |
| Gofalwraig Clwb Brecwast | Miss Rhianwen Pugh/ Mrs Meinir Davies |

## Gwybodaeth Gyffredinol



Roedd 42 o ddisgyblion ar y gofrestr 2025/26 wed

i eu trefnu mewn dau ddosbarth. Roedd 38% o'r disgyblion o gartrefi ble mae'r Gymraeg yw brif iaith y cartref. Roedd y nifer sy'n derbyn Prydiau Ysgol am Ddim yn 16% ac roedd gan 9% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol (ADY).
Rydym yn ymrwymedig i ddarparu addysg gynhwysol o safon uchel mewn amgylchfyd dysgu sy'n hyrwyddo datblygiad pob plentyn drwy feithrin dealltwriaeth o'r byd o'u cwmpas a magu parch a diddordeb tuag at eu diwylliant, eu treftadaeth, eu hamgylchedd a thuag at yr iaith Gymraeg.

## Nifer o ddisgyblion ar ddiwedd y flwyddyn academaidd 2025/26

Dosbarth 1 (Blwyddyn Derbyn,1 a 2) – 21 disgybl
Dosbarth y Caban (Blynyddoedd 3, 4, 5 a 6) – 22 disgybl   Cyfanswm = 43 disgybl

## Data ar Berfformiad yr Ysgol

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i wella safonau ar draws pob agwedd ar fywyd ysgol, er mwyn i'n holl ddysgwyr gyrraedd eu llawn botensial.

Mae gwybodaeth am weithredu ac adolygu strategaethau a thargedau'r ysgol wedi ei chofnodi'n fanwl yn y Cynllun Datblygu Ysgol. Rydym yn tracio cynnydd pob disgybl yn dymhorol. Rydym yn canolbwyntio o hyd ar sicrhau bod ein disgyblion yn cyflawni yn unol â'u potensial ac yn sicrhau addysg o'r radd flaenaf.

## Categori Iaith yr Ysgol

Mae'r ysgol yn mynnu bod gwerth addysgol o feddu ar ddwy iaith. Mae'r ysgol yn ysgol Categori Penodedig Gymraeg a golygai hyn mai Cymraeg yw prif gyfrwng bywyd a gwaith yr ysgol ac addysgir pob pwnc trwy gyfrwng y Gymraeg. Nod ein polisi ydy sicrhau fod y plant yn gwbl ddwyieithog wrth ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg erbyn gadael yr ysgol gynradd er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni. Mae'r ddarpariaeth a wneir yn yr ysgol yn sicrhau fod pob plentyn yn medru cyfathrebu yn hyderus yn y ddwy iaith a'u bod yn ymwybodol o'u hetifeddiaeth ddiwydiannol.

| | Cwricwlwm | Iaith yr Ysgol | Deilliannau |
|---|---|---|---|
| Categori Penodedig Gymraeg | Dysgir pob pwnc trwy gyfrwng y Gymraeg, heblaw am Saesneg. Mae'r ysgol yn cyflwyno Saesneg yn nhymor olaf y disgyblion ym mlwyddyn 2 | Cymraeg ydy'r iaith cyfathrebu gyda'r disgyblion a busnes dyddiol yr ysgol. Mae'r ysgol yn cyfathrebu yn ddwyieithog gyda rhieni. | Gwneir asesiadau trwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob pwnc ond Saesneg. |




### Ystyriaethau eraill

Mae dysgu Cymraeg a Saesneg, naill ai fel iaith gyntaf neu ail iaith, yn rhan hanfodol o'r rhaglen i weithio ar gyfer pob dosbarth yn holl ysgolion cynradd Ceredigion, ond gwenir darpariaeth arbennig i'r canlynol:

i. hwyrddyfodiaid

ii. plant ag anghenion dysgu ychwanegol ble fyddai cyflwyno iaith newydd yn rhwystro eu datblygiad addysgiadol a ble fyddai addysg yn eu hiaith gyntaf yn hanfodol

iii. plant o wledydd tramor nad yw Cymraeg neu Saesneg yn ail iaith iddynt a ble fyddai cyflwyno trydedd iaith iddynt yn rhwystro eu datblygiad addysgiadol a ble byddai'r gallu i siarad Saesneg yn fanteisiol iddynt.

### Siarter Iaith

Diolch yn fawr i'r Pwyllgor Cymreictod am arwain targedau'r Siarter Iaith a llongyfarchiadau am ennill gwobr aur Siarter Iaith Ceredigion. Rydym yn awyddus iawn i hybu Cymreictod a sicrhau bod y disgyblion yn magu ymdeimlad o berthyn o fewn y gymuned.




### Presenoldeb 2025-2026

Hoffwn atgoffa rhieni, pan fydd disgybl yn absennol, dylai hysbysu'r ysgol mor fuan â phosib, yn egluro'i absenoldeb. Gofynnir am alwad ffôn, e-bost neu nodyn/eglurhad hefyd os yw plentyn i adael yr ysgol am unrhyw reswm yn ystod oriau'r ysgol neu fynd i dŷ rhywun arall ar ôl oriau'r ysgol.

Gwerthfawrogwn yn fawr ymdrechion rhieni/warchodwyr i sicrhau bod eich plentyn/plant yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn brydlon.

| | 2024/25 | 25/26 |
|---|---|---|
| Presenoldeb ysgol gyfan (oed statudol) | 96.2% | 95.9% |
| Presenoldeb disgyblion PYD | 94.7% | 88.2% |
| Presenoldeb disgyblion ddim yn PYD | 96.4% | 96.7% |
| Gwahaniaeth rhwng PYD a ddim | 1.7% | 7.8% |
| Absenoldebau parhaus (nifer a phresenoldeb < 90% | 5.4% | 8.3% |
| Presenoldeb disgyblion ADY | 92.2% | 92.7% |
| Absenoldebau anawdurdodedig | 2.2% | 1.7% |
| Absenoldebau awdurdodedig | 5.1% | 4.8% |

**Dyddiau gosod HMS 2026-2027**
Diwrnod 1 a 2 - Medi 1af, 2ail 2026
Diwrnod 3 - Ionawr 4ydd,2027
Diwrnod 4 - Ebrill 30ain, 2027



**Amserau Sesiynau**
Bore: 09:00-12:00
(amser chwarae 10:30 - 10:45)
Cinio: 12:00 - 13:00
Prynhawn:13:00 - 15:30
(amser chwarae 14:30 - 14:45)

**Cyllideb**
Gweler y dudalen atodol am fanylion o gyllideb yr Ysgol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2025/26.

**Adeiladau a Thiroedd – Datblygiadau**



Yn dilyn llwyddiant y noson godi arian 'Strictly', a drefnwyd dan arweiniad gweithgar ein PTA, llwyddwyd i godi tua £17,000. Mae hwn yn enghraifft wych o'r hyn y gellir ei gyflawni drwy gydweithio fel cymuned ysgol.

Yn dilyn llais y disgyblion, penderfynwyd defnyddio'r arian i gynllunio a chreu ardal chwarae bwrpasol newydd i'r disgyblion – llecyn ar gyfer chwarae creadigol, mwynhad a chwilfrydedd. Mae'r ardal newydd wedi trawsnewid amser chwarae ac wedi creu mwy o gyfleoedd i'r disgyblion fod yn weithgar, cydweithio, defnyddio'u dychymyg a datblygu eu hyder mewn ffordd naturiol a hwyliog.

Hoffem ddiolch yn arbennig i Felinau Gwynt Cefn Croes am eu haelioni a'u cyfraniad o £12,000 tuag at y fenter newydd. Mae'r gefnogaeth hon wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol ac wedi ein galluogi i ddatblygu cyfleuster o safon i'n disgyblion.

Mae'r disgyblion wrth eu boddau gyda'r parc chwarae newydd, ac mae'n amlwg bod amser chwarae bellach yn llawn mwy o egni, creadigrwydd a mwynhad. Yn ogystal â'r hwyl, mae'r ardal yn hyrwyddo gweithgarwch corfforol, iechyd a lles, ac yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion chwarae a dysgu gyda'i gilydd. **Am blant lwcus iawn!**

**Darpariaeth Chwaraeon** Fel arfer, bydd yr ysgol yn cymryd rhan mewn nifer helaeth o weithgareddau Chwaraeon a chystadlaethau gan ddwyn clod i'r ysgol ar niferoedd o achlysuron:- Cystadlaethau pêl droed a phêl rwyd yr Urdd, trawsgwlad, rygbi, athletau, mabolgampau ardal ac ysgol, gala nofio'r Urdd a'r Rhanbarth. Mae gwersi wythnosol yn ystod tymor yr Hydref a Gwanwyn.



Mae'r Ysgol yn rhoi blaenoriaeth i wersi Addysg Gorfforol ac agweddau lles a ffitrwydd plant. Ymdrechwn i sicrhau bod pob plentyn yn derbyn sesiynau penodol o Addysg Gorfforol yn wythnosol. Mae'r Ysgol hefyd yn manteisio ac yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion trwy wahodd asiantaethau allanol megis Actif Ceredigion i addysgu'r plant.Llwyddwyd i gynnal ein mabolgampau Ysgol a diolch yn fawr i barc carafanu'r Woddlands am gynnal y digwyddiad unwaith eto eleni.



### Bwyta ac Yfed yn Iach

Mae'n bwysig bod pob disgybl yn bwyta ac yn yfed yn iach yn Ysgol Mynach. Mae'r ysgol yn hybu iechyd y disgyblion ac yn achub ar bob cyfle i annog y disgyblion i fwyta ac yfed yn iach yn ystod y dydd. Mae cinio iachus am ddim yn cael eu paratoi yn yr ysgol ac anogir disgyblion i fwyta pecynnau bwyd iach i ginio.

Mae'n bwysig bod y disgyblion yn yfed dŵr ac yn llenwi'r poteli yn rheolaidd. Mae croeso i ddisgyblion  yfed dŵr yn y gwersi ac ar unrhyw achlysur  yn ystod y dydd. Mae iechyd a lles disgyblion yn un o flaenoriaethau'r ysgol.

### Clwb Brecwast

Cynhelir Clwb brecwast llwyddiannus yn foreol o 8:00yb i 8:45yb. Rhiannon Pugh a Meinir Davies sydd wedi bod yn gyfrifol am y disgyblion yn ystod oriau'r clwb. Mae croeso i bawb ymuno â'r Clwb.

### Diogelu

Yn ein hysgol ni, diogelwch y plant sy'n dod gyntaf. Rydym yn sicrhau nad oes unrhyw ddrws allanol ar agor yn ystod gwersi, ac mae'n rhaid i bob ymwelydd ddod i'r brif fynedfa a chanu'r gloch wrth giât yr ysgol er mwyn cael sylw. Mae'r ysgol yn cydymffurfio a pholisi Iechyd a Diogelwch y Sir. Cwblhawyd yr Awdit Iechyd a Diogelwch yn ystod tymor y gwanwyn gan y Pennaeth ac Aelod o'r Corff Llywodraethol. Nid oedd unrhyw fater yn peri gofid. Torrwyd y coed wrth gefn yr ysgol gan fod y gwreiddiau yn codi'r tarmac ar y iard chwarae.



### Glendid

Cyflogir glanhawr am 8 awr yr wythnos. Mae'r ysgol yn cael ei chadw'n lân a chaiff toiledau'r disgyblion eu cynnal a'u cadw mewn cyflwr da a chant eu gwirio a'u glanhau'n ddyddiol.

### Cymunedau Dysgu Proffesiynol

Rydyn ni'n ffodus iawn o'r berthynas a chydweithio llwyddiannus sydd gyda ni gydag ysgolion Pontrhydfendigaid a Syr John Rhys. Mae ein partneriaeth wedi bod yn canolbwyntio i ddatblygu addysgeg a chwricwlwm i Gymru , a chydweithio wrth gynnal a cgodi safonau Darllen a Rhifedd. Mae'r athrawon yn cyd-gynllunio themâu a gwersi diddorol yn ystod y flwyddyn er mwyn lleihau baich gwaith pob aelod o staff.



**Polisi Addysg Dysgu Ychwanegol (ADY)**
Fel ysgol yr ydym yn ceisio sicrhau fod pob plentyn sy'n cael ei gynhwyso yn cael darpariaeth addysgol briodol o safon uchel ac yn cael mynediad i gwricwlwm eang, cytbwys a pherthnasol. Yr ydym yn ceisio adnabod disgyblion sy'n cael anawsterau'n gynnar gan dargedu cymorth yn y Dosbarth Dysgu Sylfaen. Pan ystyrir athro fod anghenion gan blentyn mae'n nodi ei ddiffygion addysgol ac yn trafod gyda'r Pennaeth. Cyn rhoi plentyn ar gam priodol y gofrestr addysg arbennig byddwn bob amser yn gofyn caniatâd y rhieni, a lle bo'n briodol, gofyn barn y plentyn.

Cyfarfu aelodau o'r Corff Llywodraethol yn ystod y flwyddyn er mwyn trafod cynnydd disgyblion penodol hyn ynghyd â'r ddarpariaeth a gynigir iddynt. Mae'r ysgol yn adnabod ac yn cefnogi plant ag anghenion ychwanegol gan gynnwys disgyblion dawnus a thalentog. Mae'r Ddeddf ADY yn flaenoriaeth ysgol.

Carys Edwards ( Pennaeth Cynorthwyol Ysgol Syr John Rhys) yw Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) yr ysgol Wrth gydweithio'n effeithiol gyda'r clwstwr y mae'r ysgol yn sicrhau bod strategaeth gadarn yn ei lle. O dan arweiniad ein CADY ac athrawon dosbarth mae'r cynorthwywyr addysgu yn atgyfnerthu ac yn cefnogi dysgu'n effeithiol, gan weithio gyda grwpiau a / neu unigolion yn dibynnu ar yr anghenion a nodwyd. Hyfforddwyd llawer o staff yn fewnol er mwyn gallu cynnal ymyraethau ac er mwyn pontio'r gwaith a wneir o fewn ymyrraeth o fewn gweithgareddau'r dosbarth.

Mae pob athro yn yr ysgol yn ymwybodol o bwysigrwydd gwahaniaethu er mwyn darparu addysg gyflawn a pherthnasol i'r disgyblion. Yn dibynnu ar y dasg, mae gwahaniaethu yn digwydd o ran lefel y gwaith, marcio a chanmoliaeth, disgwyliadau a threfniadaeth dosbarth, h.y. gweithio mewn pâr, grŵp neu'n unigol.



Mae athrawon yn asesu dysgu pob disgybl yn ffurfiol ac yn anffurfiol ac mae targedau'n cael eu trafod a'u hadolygu'n rheolaidd. Cefnogir grwpiau sy'n tangyflawni ac mae eu cynnydd yn cael ei olrhain yn effeithiol er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd eu potensial.

**Datblygiad Proffesiynol Parhaus**
Mynychodd nifer o'r athrawon a'r cynorthwywyr hyfforddiant a chyrsiau penodol yn ystod y tymor e.e. Hyfforddiant Ymddygiad – When Adults Change, Hyfforddinat Rhifedd, Mynychu hyfforddinat Cynllun Caru Darllen, gweithdai ffoneg Saesneg 'Monster Phonics'gweithredu grwpiau ymyrraeth, cefnogaeth Cyfri Ceredigion a datblygu darpariaeth gyfoethog yn y cyfnod sylfaen. Bu'r athrawon ar gyrsiau i ddatblygu sgiliau Cymhwysedd Digidol a Chydberthnasedd a Rhywioldeb.

## Polisïau / Strategaethau a fabwysiadwyd gan y Corff Llywodraethol:

Mae'r ysgol yn llunio ac adolygu polisïau yn ystod y flwyddyn addysgol gan gyflwyno unrhyw newidiadau i bolisïau presennol gerbron y Llywodraethwyr i'w trafod a'u derbyn, gan wneud yr un modd a pholisïau newydd.



Gosodwyd y polisïau statudol cyfredol i gyd ar TEAMS. (ar gyfer gwybodaeth y Llywodraethwyr). Mae'r ysgol yn cydweithio â Dylan Edwards i ddatblygu gwefan newydd (Hydref 2026) a fydd yn cynnwys holl bolisïau statudol yr ysgol, er eich gwybodaeth.Os ydych chi am gopi o unrhyw bolisi cysylltwch gyda swyddfa'r Ysgol neu'r pennaeth.

## Trefniadau ac Ymweliadau Rhieni

Un o lwyddiannau'r ysgol yw ein cyfarfodydd cynnydd tymhorol, lle rydym yn croesawu disgyblion i arwain eu rhieni ac aelodau o'u teulu o amgylch yr ysgol a dangos eu gwaith yn y llyfrau. Mae hyn yn gyfle gwerthfawr i'r disgyblion ddathlu eu llwyddiannau, rhannu eu cynnydd a dangos enghreifftiau o'u gwaith gwych.

Yn ogystal â'r cyfarfodydd cynnydd tymhorol, mae pob disgybl yn derbyn adroddiad ysgrifenedig manwl yn flynyddol, sy'n rhoi trosolwg o'i gynnydd a'i ddatblygiad.

Os hoffech drafod gwaith, cynnydd neu les eich plentyn gydag aelod o'r staff neu'r pennaeth, mae croeso i chi gysylltu â'r ysgol i drefnu cyfarfod ar adeg sy'n gyfleus i bawb.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod yr ysgol yn hygyrch i bob plentyn, gan gynnwys plant anabl, a byddwn yn gweithredu'n brydlon i fynd i'r afael ag unrhyw anawsterau mynediad a all godi.

## Llais a Lles y Disgybl

Mae llais y disgybl yn sicr wedi bod yn allweddol wrth ddatblygu cyd-destunau gwaith sydd yn ennyn diddordeb pob unigolyn. Mae gan y cynghorau disgyblion rôl bwysig o fewn yr ysgol. Maent yn cydweithio gan nodi targedau ar gyfer gwelliant. Rydym yn defnyddio'r pwyllgorau yn rhagweithiol i arwain elfennau o fywyd yr ysgol ac yn allweddol i rediad a phenderfyniadau'r Ysgol.

Mae'r Cynghorau Ysgol wedi sefydlu Senedd ac yn cymryd rhan flaenllaw wrth drefnu gweithgareddau niferus e.e. Gweithgareddau Plant mewn Angen, Diwrnod y Llyfrau, Bore coffi Macmillan, tripiau ysgol ayyb.




Mae darpariaeth lles ar gyfer y disgyblion yn flaenoriaeth gyda phob disgybl yn cael y ddarpariaeth briodol ar eu cyfer. Mae sesiynau Mindfulness, ELSA a 'Paned gyda'r Pennaeth', Anxiety Gremlin a Talkabout yn gyfryngau effeithiol iawn o sicrhau lles meddwl y disgyblion i gyd.

### Hunan Arfarnu a'r Cynllun Datblygu Ysgol

Mae'r rhaglen hunan arfarnu tair blynedd yn ein galluogi i wneud gwerthusiad beirniadol o holl bynciau'r cwricwlwm yn ogystal ag agweddau allweddol eraill o fywyd yr ysgol.
Cofnodir yr ymagweddau sydd angen datblygu ymhellach, ynghyd â blaenoriaethau newydd, yn y cynllun datblygu ysgol. Rhydd y ddogfen, sydd wedi ei chymeradwyo gan y bwrdd llywodraethol, weledigaeth glir i'r ysgol ar gyfer cynllunio i'r dyfodol. Mae'r cynllun yn cael ei ddiwygio'n flynyddol.

### Arfarniad o gynnydd blaenoriaethau Cynllun Datblygu Ysgol 2025/26

Mae ffocws ar ddefnyddio sgiliau TGCh ar draws y cwricwlwm er mwyn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion ail ymweld, ymarfer a chymhwyso eu sgiliau Cymhwysedd Digidol.

**1.Pa mor effeithiol yw'r strategaethau addysgu presennol wrth ddatblygu rhuglder a hyder disgyblion mewn mathemateg pen?**



**Effaith:** O ganlyniad i weithredu dull strategol a chyson o ddatblygu mathemateg ar draws yr ysgol, mae safonau, ymgysylltiad a chynnydd disgyblion wedi gwella'n sylweddol. Mae sicrhau bod pob athro yn cynnal sesiynau mathemateg pen o leiaf dair gwaith yr wythnos, gyda ffocws clir ar grwpiau targed, wedi galluogi disgyblion i ddatblygu eu medrau rhifedd yn fwy hyderus ac annibynnol, gan gyfrannu at well cyfraddau cynnydd dros amser. Mae monitro rheolaidd gan y cydlynwyr mathemateg wedi sicrhau lefel uchel o gysondeb yn ansawdd yr addysgu a'r ddarpariaeth, tra'n darparu gwybodaeth werthfawr i lywio camau gwella pellach. Mae'r ymweliad llwyddiannus gan Ymgynghorydd Mathemateg y sir, Liwsi Harris, a'r defnydd o'n hysgolion fel enghreifftiau o arfer dda ar draws yr awdurdod yn dilysu effeithiolrwydd ein dulliau addysgu a'n harweinyddiaeth pwnc. Mae'r gydnabyddiaeth allanol hon yn adlewyrchu ymrwymiad cryf staff i welliant parhaus ac yn cadarnhau bod yr ysgol yn ganolfan arfer effeithiol. O ganlyniad, mae canlyniadau'r Asesiadau Personol Gweithdrefnol a Rhesymu yn dangos cynnydd cryf iawn, gyda'r rhan fwyaf o ddisgyblion bellach yn cyflawni o fewn y categorïau gwyrdd a glas, gan ddangos lefelau uchel o ddealltwriaeth, rhesymu mathemategol a chymhwysiad effeithiol o'u medrau mewn amrywiaeth o gyd-destunau.

**2.Sut y gall staff datblygu brwdfrydedd dros ddarllen Cymraeg er mwyn hyrwyddo mwynhad a dealltwriaeth?**

**Effaith:** O ganlyniad i weithredu ystod eang o strategaethau wedi'u targedu i ddatblygu diwylliant darllen ar draws yr ysgol, mae agweddau, ymgysylltiad a hyder disgyblion tuag at ddarllen wedi gwella'n sylweddol. Mae casglu llais disgyblion, rhieni a staff drwy holiaduron wedi sicrhau bod camau gweithredu'r ysgol yn ymateb yn uniongyrchol i anghenion a safbwyntiau'r gymuned ysgol. Mae'r cynnydd yn nifer a safon y cyfleoedd darllen yn y dosbarth, ynghyd ag ehangu'r ddarpariaeth o lyfrau Cymraeg a diwygio dulliau gwobrwyo i ddiwallu anghenion y disgyblion hŷn, wedi cyfrannu at lefelau uwch o gymhelliant a chyfranogiad. Yn y Dysgu Sylfaen, mae'r ffocws bwriadus ar ddatblygu sgiliau ffoneg a dechrau gweithredu cynllun Tric a Chlic wedi cryfhau medrau darllen cynnar disgyblion ac wedi gwella eu hyder wrth ddatgodio geiriau. Yng Nghyfnod Allweddol 2, mae cyflwyno strategaethau Caru Darllen, gyda phwyslais cryfach ar fwynhad a llai o ddibyniaeth ar gofnodi ffurfiol, wedi meithrin agweddau mwy cadarnhaol at ddarllen ac wedi cynyddu cyfranogiad disgyblion mewn gweithgareddau darllen. Mae'r amrywiaeth eang o fentrau darllen, gan gynnwys posteri strategaethau darllen, heriau darllen, gweithgareddau Diwrnod y Llyfr a chydweithio ag awduron, wedi cefnogi datblygiad diwylliant darllen cryf a bywiog ar draws yr ysgol. Mae tystiolaeth gychwynnol yn dangos bod disgyblion yn fwy brwdfrydig tuag at ddarllen, yn defnyddio ystod ehangach o strategaethau darllen yn hyderus ac yn ymgysylltu'n fwy effeithiol â gweithgareddau llythrennedd. Er bod annog darllen yn y cartref yn parhau'n faes i'w gryfhau, mae'r cynnydd a welwyd hyd yma yn rhoi sylfaen gadarn ar gyfer gwreiddio'r arferion newydd ymhellach a sicrhau bod pob disgybl yn datblygu fel darllenydd hyderus, brwdfrydig ac annibynnol.





**3. Sut gallwn wella presenoldeb, lles ac ymgysylltiad disgyblion er mwyn lleihau'r risg o dangyflawni a sicrhau bod pob disgybl yn cyflawni ei botensial?**



**Effaith:** O ganlyniad i weithredu dull rhagweithiol a phersonol o wella presenoldeb, mae'r ysgol wedi sicrhau cynnydd cadarnhaol mewn lefelau presenoldeb ac wedi cryfhau ymgysylltiad disgyblion â bywyd yr ysgol. Mae dadansoddi data presenoldeb wedi galluogi'r ysgol i adnabod yn glir y prif ffactorau sy'n effeithio ar bresenoldeb, gan gynnwys effaith sylweddol gwyliau teuluol ar ddechrau'r tymor. Trwy dargedu'n gynnar y disgyblion hynny sy'n colli diwrnodau unigol yn rheolaidd heb reswm clir a chydweithio'n agos â rhieni a theuluoedd, mae'r ysgol wedi datblygu dulliau cymorth mwy effeithiol sy'n ymateb i anghenion unigol pob plentyn. O ganlyniad, mae'r gwelliannau hyn yn dangos bod ymyriadau'r ysgol yn cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb, gan sicrhau bod disgyblion yn manteisio'n gyson ar y cyfleoedd dysgu sydd ar gael iddynt.

### Amddiffyn Plant

Swyddog cyswllt y Sir o ran Amddiffyn Plant ydy Nicola Willios. Mae'n ymweld â'r ysgol yn flynyddol i gynnal awdit trylwyr. Y Llywodraethwr sy'n gyfrifol am weithdrefnau Amddiffyn Plant ydy Gareth Jones, Cydlynwyr Amddiffyn Plant yr Ysgol ydy Joyce George a Bethan James.  Mae pob aelod o staff wedi ennill Cymhwyster Grwp a neu b ac wedi cwblhau hyfforddiant Diogelua ar lein

### Cynllun Mynediad i'r Ysgol

Fel ysgol, rydym yn deall pwysigrwydd dysgu ac addysgu effeithiol sy'n sicrhau'r profiadau gorau i bob disgybl yn yr ysgol. Rydym yn sicrhau bod pob plentyn ag anabledd yn cael yr un profiadau a phawb arall yn yr ysgol. Rydym yn gwerthuso ein perfformiad yn gyson er mwyn sicrhau bod gofynion pob plentyn yn cael ei gyrraedd. Mae'r ysgol wedi paratoi cynllun hygyrchedd sy'n gosod targedau byrdymor a hirdymor.

### Prosbectws

Adolygwyd prosbectws yr ysgol ar gyfer 2022-2023 yn unol â gofynion y Cynulliad. Mae'r prosbectws yn llawn lluniau apelgar a chyfredol.  Mae copïau wedi'u dosbarthu ar gyfer rhieni newydd sy'n mynychu addysg llawn amser o fewn yr ysgol. Mae copïau o'r prosbectws ar gael o'r ysgol.

## Cysylltiadau â'r Gymuned



Mae'r berthynas gref a chadarnhaol rhwng yr ysgol a'r gymuned leol yn parhau i fod yn rhan bwysig o fywyd yr ysgol.

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau a gweithgareddau allgyrsiol sy'n cyfoethogi'r cwricwlwm ac yn rhoi cyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu eu doniau, eu hyder a'u hymdeimlad o berthyn.

Yn flynyddol, mae'r disgyblion yn cystadlu yn Eisteddfodau lleol Cwmystwyth, Swyddffynnon a Phontrhydfendigaid, yn ogystal ag Eisteddfodau'r Urdd. Mae'r digwyddiadau hyn yn gyfle gwych i'r disgyblion arddangos eu doniau a dathlu ein treftadaeth a'n diwylliant Cymraeg.

Mae'r sioe Nadolig flynyddol yn un o uchafbwyntiau calendr yr ysgol, gan ddod â'r ysgol a'r gymuned ynghyd yn Neuadd Pontrhydygroes. Mae'r disgyblion hefyd yn creu fideo digidol blynyddol sy'n dathlu'r ardal leol ac yn cynnwys cymeriada o'r gymuned.

Mae ymweld â'r Mart lleol yn gyfle i'r disgyblion brofi a gwerthfawrogi un o agweddau pwysig bywyd ein hardal wledig. Maent hefyd yn cymryd rhan yn nathliadau'r Cristingl yn Eglwys Ysbyty Cynfyn, gan gryfhau ymhellach y cysylltiadau rhwng yr ysgol a'r gymuned leol.



Mae Coedlan Coed y Bobl yn adnodd arbennig sy'n rhoi cyfle i'r disgyblion fwynhau a dysgu yn yr awyr agored, gan ddatblygu eu gwerthfawrogiad o fyd natur a'r amgylchedd o'u cwmpas.

Cynhelir ein Gwasanaeth Diolchgarwch yn Eglwys yr Hafod, gan roi cyfle i'r ysgol a'r gymuned ddod ynghyd i fyfyrio a rhoi diolch. Yn flynyddol hefyd, rydym yn teithio i Nant y Moch i ddathlu Diwrnod Owain Glyndŵr, gan roi cyfle i'r disgyblion gysylltu â hanes a threftadaeth Cymru mewn ffordd ymarferol a phrofiadol.

Ar ddiwedd y flwyddyn ysgol, cynhelir ein Gwasanaeth Gwobrwyo yn neuadd y pentref. Mae hwn yn achlysur arbennig i ddathlu cyflawniadau a llwyddiannau ein disgyblion, ac rydym yn falch o groesawu rhieni, teuluoedd ac aelodau o'r gymuned i ymuno â ni.

Rydym yn falch iawn o'r cysylltiadau cryf sydd gennym â'n cymuned leol ac yn parhau i werthfawrogi'r cyfleoedd hyn i'n disgyblion ddysgu, cyfrannu a dathlu fel rhan o gymuned fywiog a chynhwysol.

## Cymdeithas Rhieni a Ffrindiau'r Ysgol

Hoffwn ddiolch i gymdeithas rhieni a ffrindiau'r Ysgol am fod mor weithgar er budd yr ysgol ac am eu holl gymorth ariannol tuag at yr Ysgol yn ystod y flwyddyn. Mae eu rhoddion hael

wedi datblygu'r adnoddau yn y dosbarthiadau a'r profiadau mae'r plant yn gallu derbyn a hefyd wedi helpu talu am fysiau a phrofiadau allgyrsiol i'r plant.

Rydym yn ddiolchgar iawn, yn benodol, am eu mentergarwch a'u hymrwymiad i godi arian er lles ein disgyblion. Mae'r parc chwarae yn enghraifft wych o sut y gall llais y disgyblion, cefnogaeth rhieni a chydweithio fel cymuned arwain at newid pendant sy'n cael effaith wirioneddol ar brofiad dyddiol ein plant

Mae'r gymdeithas rhieni a ffrindiau'r Ysgol yn agored i bawb sydd gyda diddordeb mewn helpu i ddatblygu'r profiadau a'r cyfleoedd mae'r Ysgol yn gallu darparu i'r plant.



## Edrych Ymlaen at 2026 – 2027

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi profi llawer o lwyddiannau, ac mae hyn i lawr i'r bartneriaeth lwyddiannus rhwng nifer o randdeiliaid - disgyblion, staff, llywodraethwyr , y gymuned ac yn sicr chi fel rhieni a pherthnasau.

Fel y blynyddoedd blaenorol, bu'n flwyddyn brysur iawn i ni gyd. Croesawom ddisgyblion a theuluoedd newydd i deulu'r ysgol yn ystod y flwyddyn a ffarweliwyd gyda disgyblion Blwyddyn 6 wrth iddynt drosglwyddo i'r Sector Uwchradd i barhau gyda'u haddysg.

Rydym am sicrhau bod y disgyblion yma yn derbyn profiadau ysbrydoledig sy'n magu dychymyg a chwilfrydedd mewn dysgu. Rydym yn parhau i ffocysu ar addysgeg gan gynnig bwydlen o weithgareddau sydd yn ffocysu ar anghenion pob unigolyn ac yn darparu addysg o'r radd flaenaf i'r disgyblion.



Mae'n gyfnod cyffrous ym myd addysg gyda datblygiadau mawr yn ein cwricwlwm. Byddwn fel ysgol yn ymateb yn rhagweithiol i'r datblygiadau hyn gan addasu ein prosesau yn raddol er mwyn cefnogi disgwyliadau'r cwricwlwm. Craidd y cwricwlwm yw y bydd addysgu a dysgu yn llawer mwy hyblyg a chreadigol ac rydym ni fel ysgol yn hynod o gyffrous i

allu cydweithio gydag eich plant er mwyn manteisio ar amryfal brofiadau gan sicrhau eu bod yn; -unigolion iach, hyderus -ddinasyddion egwyddorol, gwybodus -ddysgwyr uchelgeisiol, galluog -cyfranwyr mentrus, creadigol.

Mae blaenoriaethau Cynllun Gwella Ysgol 2026/27 yn ffocysu ar  y canlynol:

**1.Datblygu gallu dysgwyr i gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm**

Sut gallwn sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfleoedd cyson, dilyniannol a phwrpasol i gymhwyso eu medrau rhifedd yn gywir, yn hyderus ac yn annibynnol ar draws pob maes dysgu a phrofiad?

**2. Datblygu a gwreiddio diwylliant darllen cynaliadwy ar draws yr ysgol**

Sut gallwn ddatblygu a gwreiddio diwylliant darllen cynaliadwy sy’n meithrin mwynhad, hyder ac annibyniaeth dysgwyr, yn cryfhau eu medrau darllen ac yn eu galluogi i ddefnyddio’r medrau hynny’n llwyddiannus ar draws pob maes dysgu a phrofiad?

**3. Datblygu a gwreiddio rhaglen ysgol gyfan ar gyfer cydberthnasau, parch, diogelwch a lles**

Sut gallwn ddatblygu a gwreiddio rhaglen ysgol gyfan sy’n sicrhau darpariaeth gyson, ddilyniannol a chynhwysol, sy’n briodol i oedran a cham datblygu’r dysgwyr, ac sy’n bodloni gofynion perthnasol Cwricwlwm i Gymru?

Dymuna’r Corff Llywodraethu ddiolch i holl staff yr ysgol am eu gwaith cydwybodol yn ystod y flwyddyn a diolchir hefyd i’r rhieni ac aelodau o’r gymuned am eu cefnogaeth gyson. Hoffai’r Pennaeth ddiolch i’r Llywodraethwyr am eu cymorth hael a’u trafod trylwyr ar bob achlysur yn ymwneud â’r ysgol. Dymuna gydnabod yn arbennig parodrwydd y Cadeirydd i roi o’i hamser i sicrhau dealltwriaeth lawn o bob sefyllfa yn ymwneud â rhedeg yr ysgol hon.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i holl ddisgyblion, rhieni, athrawon, staff, Llywodraethwyr a ffrindiau’r Ysgol am eu hymroddiad i Ysgol Gynradd Mynach yn ystod y flwyddyn academaidd a aeth heibio. Edrychwn ymlaen yn fawr iawn i gydweithio gyda'ch plant a pharhau'r berthynas agos sydd gennym ni fel ysgol gyda chi rieni.



| Mynach 2312 | £ | |
|---|---|---|
| **CYFLAWNIAD ARIANNOL 2025/26** | | **FINANCIAL PERFORMANCE 2025/26** |
| Mae'r Awdurdod Addysg Lleol newydd gau'r cyfrifon am y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026. Dangosir isod sut y daethpwyd at y cyllid a benodwyd i'r ysgol. | | The Local Education Authority has recently finalised the closure of accounts for the year ended 31 March 2026. The total funding for the school has been derived as set out below. |
| Dyraniad Cyllid Gwreiddiol yn ôl Fformiwla | **260,498** | Formula Funding Initial Allocation |
| Niferoedd Disgyblion | 0 | Pupil Numbers |
| AAA | 0 | SEN |
| Y Dreth Annomestig | 0 | National Non-Domestic Rates |
| Cau Ysgol | 0 | School closure |
| Addasiad Arall | 141 | Other Adjustment |
| Dyraniad y Gronfa wrth Gefn heb ei Defnyddio | 448 | Allocation of Unutilised Contingency |
| Dyraniad Cyllid Diwygiedig 2025/26 yn ôl Fformiwla | **261,087** | Revised 2025/26 Formula Funding Allocation |
| Gwariant Net | **220,639** | Net Expenditure |
| Amrywiant | **40,448** | Variance |
| Llog ar y Gweddillion | 1,251 | Interest on Balances |
| Gwarged / (Diffyg) - 1 Ebrill 2025 | 41,113 | Surplus / (Deficit) - 1 April 2025 |
| Gwarged / (Diffyg) - 31 Mawrth 2026 Cyffredinol | **81,517** | Surplus / (Deficit) - 31 March 2026 General |
| Gwarged / (Diffyg) - 31 Mawrth 2026 Neilltuedig | **1,295** | Surplus / (Deficit) - 31 March 2026 ringfenced |
| Gwarged / (Diffyg) - 31 Mawrth 2026 Cyfanswm | **82,812** | Surplus / (Deficit) - 31 March 2026 Total |

**RHEOLAETH LEOL YSGOLION**
**LOCAL MANAGEMENT OF SCHOOLS**
**Monitro Cyllidol / Financial Monitoring**
**2025/26**

**Mynach**
**2312**

| | | £ |
|---|---|---|
| **Cyllid yn ôl Fformiwlâu / Formula Funding** | | |
| Cyllid yn ôl Fformiwlâu / Formula Funding | | 260,498 |
| Nifer y Disgyblion / Pupil Numbers | | 0 |
| Addysg Arbennig / Special Needs | | 0 |
| Y Dreth Annomestig / NNDR | | 0 |
| Cau Ysgol / Closed School | | 0 |
| Eraill / Others | | 141 |
| Cronfa wrth Gefn heb ei Defnyddio / Unutilised Contingency | | 448 |
| Dyraniad Cyllid Diwygiedig yn ôl Fformwla<br>Revised Formula Funding Allocation | | 261,087 |
| **Cyflawniad Ariannol / Financial Performance** | | |
| Gwariant Net/Net Expenditure | | 220,639 |
| Amrywiant/Variance | 2025/26 | 40,448 |
| | Cyllid wrth gefn c/d 31/3/25<br>Reserves b/f 31/3/25 | 41,113 |
| | Llog ar y Gweddillion 2025/26<br>Interest on Balances 2025/26 | 1,251 |
| CYFANSWM WRTH GEFN 31/3/26<br>*NET FUNDS AVAILABLE 31/3/26 | | 82,812 |

## Financial Performance 2025/26 / Cyflwyniad Ariannol 2025/26

| Mynach 2312 | £ | £ | |
|---|---|---|---|
| **Employee Costs** | | | **Costau Gweithwyr** |
| Teacher Costs | 167,790 | | Costau Athrawon |
| Teaching Assistant Costs | 49,195 | | Costau Cynorthwywyr Dysgu |
| Caretaking Costs | 799 | | Costau Gofalwyr |
| Administrative Officers | 761 | | Swyddogion Gweinyddol |
| Supervisors Costs | 3,218 | | Costau Goruchwylwyr |
| Supply Teacher Costs | 9,050 | | Costau Athrawon Cyflewni |
| Other Employee Costs | 0 | | Costau Gweithwyr Eraill |
| ***TOTAL EMPLOYEE COSTS*** | | 230,814 | ***CYF. COSTAU GWEITHWYR*** |
| **Premises Costs** | | | **Costau'r Adeilad** |
| Repair and Maintenance | 27,661 | | Cynnal a Chadw |
| Grounds Maintenance | 0 | | Cynnal a Chadw'r Tir |
| Energy Costs | 5,437 | | Costau Ynni |
| General Rates | 1,732 | | Trethi |
| Water Charges | 284 | | Costau Dŵr |
| Cleaning Supplies and Services | 1,611 | | Nwyddau a Gwasanaethau Glanhau |
| ***TOTAL PREMISES COSTS*** | | 36,725 | ***CYF. COSTAU'R ADEILAD*** |
| **Transport Costs** | | | **Costau Trafnidiaeth** |
| Direct Transport Costs | 2,310 | | Costau Trafnidiaeth |
| Travelling Costs | 1,560 | | Costau Teithio |
| ***TOTAL TRANSPORT COSTS*** | | 3,870 | ***CYF. COSTAU TRAFNIDIAETH*** |
| **Supplies and Services** | | | |
| Teaching Resources | 657 | | Adnoddau Dysgu |
| ICT Resources | 3,503 | | Adnoddau TGCh |
| Catering Costs | 6,187 | | Costau Arlwyo |
| Service Level Agreements | 5,395 | | Cytundebau Lefel Gwasanaeth |
| Photocopying Costs | 1,800 | | Costau Llungopïo |
| Other Supplies and Services | 5,108 | | Nwyddau a Gwasanaethau Eraill |
| ***TOTAL SUPPLIES AND SERVICES*** | | 22,650 | ***CYF. NWYDDAU A GWASANAETH*** |
| | | | |
| ***GROSS EXPENDITURE*** | | **294,059** | ***GWARIANT GROS*** |
| | | | |
| **Less: INCOME** | | | **Wedi'i Leihau :INCWM** |
| Parental/PTA Income | -26,779 | | Cyfraniadau Rhieni/CRhA |
| Grants | -42,552 | | Grantiau |
| Other Income | -4,088 | | Incwm Arall |
| | | | |
| ***TOTAL INCOME*** | | -73,419 | ***CYFANSWM YR INCWM*** |
| ***NET EXPENDITURE*** | | 220,639 | ***GWARIANT NET*** |
| **Funding Available** | | | **Cyllid ar Gael** |
| Formula Funding 2025/26 | 261,087 | | Cyllid yn ôl Fformiwla 2025/26 |
| Balance b/f 1 April 2025 | 41,113 | | Gweddill c/d 1 Ebrill 2025 |
| | | 302,200 | |
| ***NET VARIANCE*** | | 81,561 | ***AMRYWIANT NET*** |
| ***INTEREST*** | | 1,251 | ***LLOG*** |
| ***TOTAL 25/26 SURPLUS General*** | | 81,517 | ***CYFANSWM ARIAN WRTH GEFN 25/26 Cyffredinol*** |
| ***TOTAL 25/26 SURPLUS Ringfenced*** | | 1,295 | ***CYFANSWM ARIAN WRTH GEFN 25/26 Neilltuedig*** |
| ***TOTAL 25/26 SURPLUS*** | | 82,812 | ***CYFANSWM ARIAN WRTH GEFN 25/26*** |

## CYNGOR SIR CEREDIGION
## DYDDIADAU GWYLIAU YSGOL 2026/27

### 2026 - Medi

| Llun | Maw | Mer | Iau | Gwe | Sad | Sul |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 |
| 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 |
| 14 | 15 | 16 | 17 | 18 | 19 | 20 |
| 21 | 22 | 23 | 24 | 25 | 26 | 27 |
| 28 | 29 | 30 | | | | |

### 2026 - Hydref

| Llun | Maw | Mer | Iau | Gwe | Sad | Sul |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 1 | 2 | 3 | 4 |
| 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 |
| 12 | 13 | 14 | 15 | 16 | 17 | 18 |
| 19 | 20 | 21 | 22 | 23 | 24 | 25 |
| 26 | 27 | 28 | 29 | 30 | 31 | |

### 2026 - Tachwedd

| Llun | Maw | Mer | Iau | Gwe | Sad | Sul |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | 1 |
| 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 |
| 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 |
| 16 | 17 | 18 | 19 | 20 | 21 | 22 |
| 23 | 24 | 25 | 26 | 27 | 28 | 29 |
| 30 | | | | | | |

### 2026 - Rhagfyr

| Llun | Maw | Mer | Iau | Gwe | Sad | Sul |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 |
| 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 |
| 14 | 15 | 16 | 17 | 18 | 19 | 20 |
| 21 | 22 | 23 | 24 | 25 | 26 | 27 |
| 28 | 29 | 30 | 31 | | | |

### 2027 - Ionawr

| Llun | Maw | Mer | Iau | Gwe | Sad | Sul |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | 1 | 2 | 3 |
| 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 |
| 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | 16 | 17 |
| 18 | 19 | 20 | 21 | 22 | 23 | 24 |
| 25 | 26 | 27 | 28 | 29 | 30 | 31 |

### 2027 - Chwefror

| Llun | Maw | Mer | Iau | Gwe | Sad | Sul |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
| 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 |
| 15 | 16 | 17 | 18 | 19 | 20 | 21 |
| 22 | 23 | 24 | 25 | 26 | 27 | 28 |

### 2027 - Mawrth

| Llun | Maw | Mer | Iau | Gwe | Sad | Sul |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
| 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 |
| 15 | 16 | 17 | 18 | 19 | 20 | 21 |
| 22 | 23 | 24 | 25 | 26 | 27 | 28 |
| 29 | 30 | 31 | | | | |

### 2027 - Ebrill

| Llun | Maw | Mer | Iau | Gwe | Sad | Sul |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 1 | 2 | 3 | 4 |
| 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 |
| 12 | 13 | 14 | 15 | 16 | 17 | 18 |
| 19 | 20 | 21 | 22 | 23 | 24 | 25 |
| 26 | 27 | 28 | 29 | 30 | | |

### 2027 - Mai

| Llun | Maw | Mer | Iau | Gwe | Sad | Sul |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | 1 | 2 |
| 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 |
| 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | 16 |
| 17 | 18 | 19 | 20 | 21 | 22 | 23 |
| 24 | 25 | 26 | 27 | 28 | 29 | 30 |
| 31 | | | | | | |

### 2027 - Mehefin

| Llun | Maw | Mer | Iau | Gwe | Sad | Sul |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 |
| 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 |
| 14 | 15 | 16 | 17 | 18 | 19 | 20 |
| 21 | 22 | 23 | 24 | 25 | 26 | 27 |
| 28 | 29 | 30 | | | | |

### 2027 - Gorffennaf

| Llun | Maw | Mer | Iau | Gwe | Sad | Sul |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 1 | 2 | 3 | 4 |
| 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 |
| 12 | 13 | 14 | 15 | 16 | 17 | 18 |
| 19 | 20 | 21 | 22 | 23 | 24 | 25 |
| 26 | 27 | 28 | 29 | 30 | 31 | |

### 2027 - Awst

| Llun | Maw | Mer | Iau | Gwe | Sad | Sul |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | 1 |
| 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 |
| 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 |
| 16 | 17 | 18 | 19 | 20 | 21 | 22 |
| 23 | 24 | 25 | 26 | 27 | 28 | 29 |
| 30 | 31 | | | | | |

DIWRNOD DI-DDISGYBL
GWYLIAU YSGOL

Noder bod gan ysgolion 2 ddiwrnod di-ddisgybl arall yn ystod y flwyddyn.
Gallant fod yn wahanol ar draws Ceredigion,
a bydd ysgolion yn rhoi gwybod i rieni yn uniongyrchol am y rhain.

| Tymor | Dechrau | Hanner Tymor | | Diwedd | Diwrnodau ysgol |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Dechrau | Diwedd | | |
| **Hydref 2026** | Mawrth 1 Medi 2026 | Llun 26 Hyd 2026 | Gwener 30 Hyd 2026 | Gwener 18 Rhag 2026 | 74 |
| **Gwanwyn 2027** | Llun 4 Ion 2027 | Llun 8 Chwe 2027 | Gwener 12 Chwe 2027 | Gwener 19 Maw 2027 | 50 |
| **Haf 2027** | Llun 5 Ebrill 2027 | Llun 31 Mai 2027 | Gwener 4 Mehefin 2027 | Mawrth 20 Gorff 2027 | 71 |
| Diwrnodau di-ddisgybl (gellir eu trefnu fel sesiynau cyfnos) | | | | | -6 |
| | | | | **CYFANSWM** | 189 |

***Noder bod y calendr hwn yn amodol ar unrhyw newidiadau all ddeillio o benderfyniadau polisi'r llywodraeth. Nid yw Cyngor Sir Ceredigion yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw golledion a ddaw yn sgil y math yma o newid i'r trefniadau gwyliau.***

# CYNGOR SIR CEREDIGION
## DYDDIADAU GWYLIAU YSGOL 2027/28

**2027 - Medi**

| Llun | Maw | Mer | Iau | Gwe | Sad | Sul |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
| 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 |
| 13 | 14 | 15 | 16 | 17 | 18 | 19 |
| 20 | 21 | 22 | 23 | 24 | 25 | 26 |
| 27 | 28 | 29 | 30 | | | |

**2027 - Hydref**

| Llun | Maw | Mer | Iau | Gwe | Sad | Sul |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | 1 | 2 | 3 |
| 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 |
| 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | 16 | 17 |
| 18 | 19 | 20 | 21 | 22 | 23 | 24 |
| 25 | 26 | 27 | 28 | 29 | 30 | 31 |

**2027 - Tachwedd**

| Llun | Maw | Mer | Iau | Gwe | Sad | Sul |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
| 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 |
| 15 | 16 | 17 | 18 | 19 | 20 | 21 |
| 22 | 23 | 24 | 25 | 26 | 27 | 28 |
| 29 | 30 | | | | | |

**2027 - Rhagfyr**

| Llun | Maw | Mer | Iau | Gwe | Sad | Sul |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
| 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 |
| 13 | 14 | 15 | 16 | 17 | 18 | 19 |
| 20 | 21 | 22 | 23 | 24 | 25 | 26 |
| 27 | 28 | 29 | 30 | 31 | | |

**2028 - Ionawr**

| Llun | Maw | Mer | Iau | Gwe | Sad | Sul |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | 1 | 2 |
| 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 |
| 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | 16 |
| 17 | 18 | 19 | 20 | 21 | 22 | 23 |
| 24 | 25 | 26 | 27 | 28 | 29 | 30 |
| 31 | | | | | | |

**2028 - Chwefror**

| Llun | Maw | Mer | Iau | Gwe | Sad | Sul |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 |
| 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 |
| 14 | 15 | 16 | 17 | 18 | 19 | 20 |
| 21 | 22 | 23 | 24 | 25 | 26 | 27 |
| 28 | 29 | | | | | |

**2028 - Mawrth**

| Llun | Maw | Mer | Iau | Gwe | Sad | Sul |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
| 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 |
| 13 | 14 | 15 | 16 | 17 | 18 | 19 |
| 20 | 21 | 22 | 23 | 24 | 25 | 26 |
| 27 | 28 | 29 | 30 | 31 | | |

**2028 - Ebrill**

| Llun | Maw | Mer | Iau | Gwe | Sad | Sul |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | 1 | 2 |
| 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 |
| 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | 16 |
| 17 | 18 | 19 | 20 | 21 | 22 | 23 |
| 24 | 25 | 26 | 27 | 28 | 29 | 30 |

**2028 - Mai**

| Llun | Maw | Mer | Iau | Gwe | Sad | Sul |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
| 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 |
| 15 | 16 | 17 | 18 | 19 | 20 | 21 |
| 22 | 23 | 24 | 25 | 26 | 27 | 28 |
| 29 | 30 | 31 | | | | |

**2028 - Mehefin**

| Llun | Maw | Mer | Iau | Gwe | Sad | Sul |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 1 | 2 | 3 | 4 |
| 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 |
| 12 | 13 | 14 | 15 | 16 | 17 | 18 |
| 19 | 20 | 21 | 22 | 23 | 24 | 25 |
| 26 | 27 | 28 | 29 | 30 | | |

**2028 - Gorffennaf**

| Llun | Maw | Mer | Iau | Gwe | Sad | Sul |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | 1 | 2 |
| 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 |
| 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | 16 |
| 17 | 18 | 19 | 20 | 21 | 22 | 23 |
| 24 | 25 | 26 | 27 | 28 | 29 | 30 |
| 31 | | | | | | |

**2028 - Awst**

| Llun | Maw | Mer | Iau | Gwe | Sad | Sul |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 |
| 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 |
| 14 | 15 | 16 | 17 | 18 | 19 | 20 |
| 21 | 22 | 23 | 24 | 25 | 26 | 27 |
| 28 | 29 | 30 | 31 | | | |

DIWRNOD DI-DDISGYBL
GWYLIAU YSGOL

Noder bod gan ysgolion 5 ddiwrnod di-ddisgybl arall yn ystod y flwyddyn. Gallant fod yn wahanol ar draws Ceredigion, a bydd ysgolion yn rhoi gwybod i rieni yn uniongyrchol am y rhain.

| Tymor | Dechrau | Hanner Tymor | | Diwedd | Diwrnodau ysgol |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Dechrau | Diwedd | | |
| **Hydref 2027** | Mercher 1 Medi 2027 | Llun 25 Hyd 2027 | Gwener 29 Hyd 2027 | Gwener 17 Rhag 2027 | 73 |
| **Gwanwyn 2028** | Mawrth 4 Ion 2028 | Llun 21 Chwe 2028 | Gwener 25 Chwe 2028 | Gwener 7 Ebrill 2028 | 64 |
| **Haf 2028** | Llun 24 Ebrill 2028 | Llun 29 Mai 2028 | Gwener 2 Mehefin 2028 | Iau 20 Gorff 2028 | 58 |
| Diwrnodau di-ddisgybl (gellir eu trefnu fel sesiynau cyfnos) | | | | | -6 |
| | | | | **CYFANSWM** | 189 |

***Noder bod y calendr hwn yn amodol ar unrhyw newidiadau all ddeillio o benderfyniadau polisi'r llywodraeth. Nid yw Cyngor Sir Ceredigion yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw golledion a ddaw yn sgil y math yma o newid i'r trefniadau gwyliau***